


Croeso i

Amgueddfa ac Archifau Wrecsam

Addysg i Ysgolion Gynradd

2020 – 2021




wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR FAWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Rydym yn falch o gyhoeddi fod ein rhaglen ddysgu nawr yn cynnig gweithdai yn seiliedig ar yr amgueddfa i ysgolion, ymweliadau allanol, a sesiynau dysgu cynorthwylol ar-lein.

Mae pob un o'n sesiynau dysgu wedi cael eu dylunio i annog chwilfrydedd naturiol a datblygu sgiliau ymholi gyda'r cyfle i weld a/neu ymdrin â gwrthrychau go iawn a ffynonellau gwreiddiol. Rhoddir addysg sy'n berthnasol i'r ardal leol gan gynnig profiad dysgu unigryw a fydd yn gwella'ch pwnc neu thema.

Gweithdai Amgueddfa

Mae ein gweithdai ymarferol a rhyngweithiol, sydd ar gael o fis Rhagfyr 2020, yn cynnig cyfle i ddisgyblion ddysgu am y gorffennol drwy ein casgliadau.

Cyfnod Sylfaen

Mae gweithdai amgueddfa y Cyfnod Sylfaen ar gael o fis Ionawr 2021. Maent wedi cael eu dylunio'n arbennig ar gyfer disgyblion ifanc gyda phwyslais ar ddysgu yn seiliedig ar chwarae, a bydd disgyblion yn gallu archwilio ein galerïau, ymchwilio i'n gwrthrychau a gwisgo ein gwisgoedd i ddod â hanes yn fyw.


Mae pob gweithdy yn para awr a gallwch eu dewis a'u dethol i wneud yr ymweliad yn hirach.

Fy Ymweliad Cyntaf i'r Amgueddfa

Rydym yn credu fod amgueddfeydd yn fannau hudol, felly gadewch i ni fynd â'ch disgyblion ar antur ddarganfod gyda help llaw gan ein preswyllydd, Dyn Brymbo. Bydd disgyblion yn cymryd rhan mewn taith dywys ryngweithiol o'n prif galeri, yn ymdrin â gwrthrychau go iawn ac yn gwisgo gwisgoedd, yn ogystal ag amser i archwilio ar liwt eu hunain.

Teganau

Bydd disgyblion yn nodi'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng bywydau plant heddiw a'r gorffennol drwy'r teganau. Mae'r sesiwn yn dechrau drwy ystyried ein hoff deganau ac yna mae'r disgyblion yn ymgymryd mewn nifer o weithgareddau ymarferol gan gynnwys llinell amser deganau, gan orffen gyda'r cyfle i chwarae ymysg ei gilydd.



Y Bobl Sy'n Ein Helpu Ni: Arwyr Ein Cymuned

Roedd ein hadeilad prydferth unwaith yn orsaf heddlu ac yn llys Ynadon. Ar un adeg bu'n gartref i ysbyty, a'r gwasanaethau tân ag ambiwlans hyd yn oed. Wrth edrych drwy luniau, gwisgo gwisgoedd a gweithgareddau eraill fel 'Pwy ydw i?', bydd y disgyblion yn cael eu cyflwyno i nifer o rolau a ymgwymerwyd am dros ganrif a mwy.



CA2

Dysgwch o du allan i'r ystafell ddosbarth gyda'n gweithdai hwylus a chyffrous o safon uchel. Yn seiliedig ar ein casgliadau, ein hamcan yw galluogi disgyblion i gysylltu gyda'u treftadaeth, archwilio ac ymchwilio.

Nadolig yr Ail Ryfel Byd

Bydd Mr. French (Warden lleol ARP) a Mrs. Cross (Cadeirydd WVS Wrecsam), yn helpu eich disgyblion i ddysgu am brofiadau gwahanol y rhyfel, o garcharorion rhyfel i faciwîs, sut i reoli eu dognau bwyd a beth i'w fwya i ginio Nadolig, (gan gynnwys blasu darn o gacen Nadolig yr Ail Ryfel Byd wedi'i wneud i rysâit wreiddiol) pa anrhegion i'w rhoi, a beth i wneud yn ystod cyrch awyr. Yn olaf, byddant yn gorfod canu cân o gyfnod y rhyfel a dawnsio er mwyn codi calon!

Yn rhedeg 07.12.20 - 11.12.20

Yr Ail Ryfel Byd yn Wrecsam

Bydd faciwîs o Lerpwl (eich disgyblion) yn cwrdd â Mrs. Cross, Cadeirydd WVS Wrecsam, a'u cymryd i Amgueddfa Wrecsam i gael eu lletya. Bydd disgyblion yn gweld sut beth oedd profi'r rhyfel yn Wrecsam, dysgu sut i 'Wneud y Tro a Thrwsio' a chymryd rhan mewn dril cyrch awyr, gan ddod o hyd i loches yn ein fersiwn ni o loches Anderson.

Yn rhedeg 11.01.21 - 22.01.21


Wrecsam Fictoraidd

Bydd disgyblion yn darganfod Wrecsam y cyfnod Fictoraidd drwy amrywiaeth o weithgareddau ymarferol gan gynnwys golchi blwmers Nain, gwisgoedd a gwrthrychau dirgel. Bydd y disgyblion hefyd yn gorfod ysgrifennu eu henw gan ddefnyddio pen ag inc, a chreu eitem fach i fynd adref gyda nhw.



Yn rhedeg 08.02.21 - 12.02.21

Archeoleg



Beth mae archeolegydd yn ei wneud? Sut dydynt yn canfod pethau am y gorffennol os nad oes unrhyw gofnod ysgrifenedig? Beth gall ysgerbyddau ddweud wrthym am bobl y gorffennol? Bydd y cwestiynau hyn a mwy yn cael eu hateb yn y gweithdy trochi. Bydd disgyblion yn cymryd rhan mewn cloddiad dan do ffug i ddysgu sgiliau archeolegydd proffesiynol, archwilio gweddillion organig a chyffwrdd gwrthrychau go iawn.

Yn rhedeg 08.03.21 - 12.03.21

Hanes bwrdeistref sirol Wrecsam

Yn newydd i 2021, a oes modd i'ch disgyblion ddysgu am hanes Wrecsam mewn dwy awr? Oes wrth gwrs! Rydym ni'n credu bod hyn yn bosib mewn gweithdy cyflym sy'n dechrau o tua

6,000 mlynedd yn ôl yn ystod yr oes Neolithig hyd at y heddiw. Bydd disgyblion yn darganfod rhai o gymeriadau lliwgar gorffennol Wrecsam, a dod yn llinell amser fyw anferth.



Yn rhedeg 22.03.21 - 26.03.21

Lego

I gyd-fynd gyda'n harddangosfa Lego ym mis Mawrth 2021, byddwn yn cynnig nifer fach o weithdai. Manylion llawn i'w cadarnhau.



Yn rhedeg 17.05.21 – 21.05.21

Rydym hefyd yn cynnig 'Y Rhufeiniaid' a'r 'Tuduriaid' yn ogystal ag ehangu ein gweithdai CS i weddu disgyblion hŷn. Cysylltwch â ni am fwy o fanylion.

Sesiynau Rhithiol

Mae ein sesiynau rhithiol hwylus ar-lein yn dod â'n casgliadau yn syth i'ch dosbarth. Bydd gan y disgyblion gyfle i weld y gwrthrychau, gofyn cwestiynau yn uniongyrchol i'n Swyddog Addysg, ac archwilio gwahanol bynciau cyn, ac ar ôl y gweithgareddau a ddarperir.

Fe allem ni ddarparu themâu eraill. Cysylltwch â ni i drafod eich gofynion.



Y themâu yw:
Gwrthrychau Dirgel
Y Fictoriaid mewn 5 Gwrthrych
Mae Pob Llun yn Adrodd Stori

**Am ddim
Para am 1 awr
Mwyafrif o 35 disgybl
ymhob sesiwn.**

Allanol

Dewch â ni mewn i'ch dosbarth am brofiad ymdrin unigryw! Yn addas ar gyfer CS a CA2, bydd y disgyblion yn cael profiad o bethau go iawn sydd fel arfer yn cael eu cadw tu ôl i wydr neu mewn storfa.

Themâu: Anifeiliaid
Sut Roeddem yn Arfer Byw
Gwrthrychau Dirgel

**£75 fesul sesiwn
dwyr awr**

Er mwyn archebu lle, neu am ragor o wybodaeth ffoniwch neu e-bostiwch

Clwb Hanes Ar Ôl Ysgol

Gadewch i ni gynnal eich clwb hanes ar ôl ysgol! Dros gyfnod o chwe wythnos, byddwn yn archwilio gwahanol themâu gan ddefnyddio gwrthrychau, gwisgoedd a gweithgareddau hwyliog.



- Archeoleg
- Dyn Brymbo – Bywyd yn yr Oes Efydd
- Bywyd bob dydd yn y gorffennol
- Yr Hen Eifftiaid – marwolaeth a chladdu
- Diwrnod golchi Oes Fictoria
- Yr Ail Ryfel Byd


Bydd pob sesiwn yn para awr: 3.20pm – 4.20pm.
Ar gael i bob oedran o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6.
Ar ddyddiau Mercher a Iau dros gyfnod o chwe wythnos:

21.04.21 - 26.05.21
22.04.21 - 27.05.21



Mae angen o leiaf 10 o blant i gynnal pob sesiwn, a dim mwy na 25.

Nid yw'n cymryd lle gofal plant arferol ar ôl ysgol.



Mae gweithdai'r amgueddfa yn dechrau un ai am 9.30am neu 10am fesul sesiwn bore, a 12.30pm neu 1pm fesul sesiwn prynhawn.

Mae'r gweithdy'n para am 2 awr

Cost CS yw £3 fesul disgybl. Archebwch ddau weithdy ar yr un diwrnod am £3.50 fesul disgybl

Cost CA2 yw £3.50 fesul disgybl ar wahân i Nadolig yr Ail Ryfel Byd sy'n £5 fesul disgybl

Mwyafrif o 40 disgybl ymhob sesiwn.

Bydd sesiynau allanol a rhithiol ar gael o 19 Hydref, 2020.

Ar gael ddydd Llun - dydd Mercher rhwng 10am a 2pm.

Polisi canslo

Rydym yn gofyn am o leiaf tair wythnos o rybudd cyn canslo.



Wrexham Museum



@wrexhammuseums



@wrexhammuseums



Shortlisted for Kids in Museums
Family Friendly Award 2016 & 2018



Cysylltwch â ni:

Rhif ffon: 01978 297460

E-bost: museumeducation@wrexham.gov.uk